Dewch i Ddyffryn Clwyd

Rhwng mynydd gwyllt Hiraethog i'r gorllewin a Bryniau Clwyd i'r dwyrain gorwedda Dyffryn ffrwythlon Clwyd. Mae'r Afon Clwyd a'r ddwy isafon, yr Elwy a'r Clywedog, yn ymddolennu ar hyd llawr y dyffryn gan ymledu wrth lifo tua'r môr, a chlytwaith o ddolydd a phorfeydd ffrwythlon ar eu glannau. Mae'r golygfeydd o'r Dyffryn yn syfrdanol tua Bryniau Clwyd i'r dwyrain, a thua Mynyddoedd y Berwyn ac Arennig i'r de, neu thuag Eryri i'r gorllewin.

Cafodd pobl eu denu i'r Dyffryn ers y cyfnod cyn hanes. Bu helwyr-gasglwyr yn hela'u bwyd yn ôl y tymor, llwythi Oes yr Efydd yn ffermio, y Rhufeiniaid yn adeiladu ffyrdd ac aneddiadau. Edmygwyd Dyffryn Clwyd am ei ffrwythlondeb, ac yn ystod yr Oesoedd Tywyll a'r Canol Oesoedd cythryblus bu'n dir ymrafael rhwng Cymru a Lloegr. Ymosododd Edward I yn yr 13eg ganrif ac mae cestyll mawreddog Rhuddlan a Dinbych yn dyst i'w gryfder milwrol. Bu brwydro am ganrifoedd a llosgwyd Cadeirlan Llanelwy nifer o weithiau, yn fwyaf nodedig gan Owain Glyndŵr yn 1402, a anrheithiodd Rhuthun hefyd. Bu'r Dyffryn yn bwysig yn ysbrydol erioed; seintiau cynnar yn sefydlu eglwysi yma, a phererinion canoloesol yn ceisio am iachâd o'r ffynhonnau sanctaidd niferus wrth bererindota i Ynys Enlli neu Dreffynnon.

Cynhyrchodd yr ardal nifer o feirdd a llenorion. Y Gymraeg yw iaith yr ardal ac mae'r traddodiadau'n dal yn fyw gyda nifer o gorau a digwyddiadau cerddorol yn yr ardal.

Mae'r teithiau cerdded yn y Dyffryn yn haws ac yn llai agored na rhai Bryniau Clwyd neu Ddyffryn yr Afon Ddyfrdwy: ar lan afon, drwy goedlan neu dros gaeau lle mae gwartheg a defaid yn pori. Mae rhai o'r troeon drwy drefi hanesyddol Dinbych, Rhuthun a Llanelwy.

Dyffryn Clwyd

Visit the Vale of Clwyd

The broad, lush Vale of Clwyd nestles between the wild Hiraethog moors to the west and the Clwydian Range to the east. The River Clwyd, and its two main tributaries, the Elwy and Clywedog, snake their way along the valley floor broadening and meandering as they flow north to the coast, edged by a patchwork of fertile meadows and pasture. The views looking outwards from the Vale are superb, east to the Clwydian Range, south to the Berwyn and Arennig mountains or west to Snowdonia.

People have been drawn to the Vale since Prehistoric times. Stone Age hunter-gatherers foraged seasonally, Bronze Age tribes farmed, and the Romans built roads and settlements. The fertility of the Vale made it highly prized and, during the turbulent Dark and Middle Ages, it was disputed border country between Wales and England. Edward I successfully invaded in the 13th century and the imposing castles at Rhuddlan and Denbigh bear testament to his military strength. However uprisings continued for centuries. St Asaph Cathedral was burned several times, most notably by Owain Glyndŵr in 1402, who also sacked Ruthin. The Vale has always been spiritually important. Early Christian saints founded churches here and many medieval pilgrims visited, seeking cures at the numerous holy wells, or en route to major pilgrimage destinations such as Bardsey and Holywell.

There is a rich Welsh cultural tradition that has produced numerous poets and writers. Welsh remains the working language of the area and the traditional culture still thrives with numerous choirs and regular musical events.

The walks in the Vale are gentler and less exposed than in the Clwydian Range or Dee Valley, alongside tumbling rivers, through woodland and across meadows grazed by cattle and sheep. Others explore the historic towns of Denbigh, Ruthin and St Asaph.

Hiraethog

Ardal dawel, ddiarffordd yw mynydd gwyllt agored Hiraethog. Yn rhan o'r olygfa hardd mae dwy gronfa ddŵr fawr yr Alwen a'r Brenig a phedwar o lynnoedd llai. Yn cyfrannu at yr amrywiaeth ceir coedwigoedd o gonifferau.

Ffynna'r grug ar y priddoedd tenau a cheir gorgors ar y fawnog ddofn. Cynefinoedd i lawer o adar ac anifeiliaid yw'r rhain a cânt eu gwarchod yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae Gwas y Neidr a thrychfilod eraill yn ffynnu yn y llynnoedd sydd ar y rhostir, y rugiar ddu brin yn bwyta'r grug ac egin y llus, a'r adar ysglyfaethus yn hela dros y rhostir digyffro. Yn yr haf, mae'r planhigion ifanc a'r pryfed yn denu adar i fagu cywion, gan gynnwys y gylfinir a'r cwtiad aur. Yng Nghoedwig Clocaenog ceir un o boblogaethau mwyaf y wiwer goch brin.

Lle da i gychwyn gweld yr ardal yw Canolfan Groeso Llyn Brenig, sydd â chaffi ac arddangosfa. Mae yma lwybrau troed a llwybr beicio o gwmpas y llyn.

The wild, open moorland of Hiraethog is peaceful and off the beaten track. Two large reservoirs, the Alwen and the Brenig, along with four smaller lakes add to the scenic beauty. Swathes of conifer forest give further variety.

Heather thrives on the thin soils with blanket bog on the deep peat. These habitats are home to many birds and animals and are protected as a Site of Special Scientific Interest. Dragonflies and other insects thrive in the moorland pools, rare black grouse feed on heather and bilberry shoots and birds of prey hunt across the undisturbed moor. In summer the fresh plant growth and plentiful insects draws many breeding birds, including curlew and golden plover. Clocaenog Forest has Wales' largest population of the rare red squirrel.

Llyn Brenig Visitor Centre, with its café and exhibition, is a good base for exploring the area. There are waymarked walking and cycling routes around the reservoirs.

Dyffryn Clwyd

Yr Arfordir / The Coast

© J Armstrong

Yr un mor neilltuol yw Twyni Gronant ym Mhrestatyn i'r gogledd, dyma ardal o dywod gydag ymyl o dwyni ac arfordir caregog gyda golygfeydd eang agored tua'r môr. Yn yr haf mae'r traeth yn hardd a'r blodau gwyllt lliwgar yn gorchuddio'r twyni sy'n fwrlwm o sŵn pryfed a chanu adar. Yn y gaeaf mae'r arfordir yn dawelach o lawer ond yr un mor ddramatig; y môr yn wyllt a'r adar môr yn ymgasglu wrth eu miloedd i aeafu ar Aber yr Afon Ddyfrdwy.

Mae Twyni Gronant yn Warchodfa Natur Leol ac wedi'u dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig i gydnabod yr amrywiaeth cyfoethog o blanhigion ac anifeiliaid sy'n byw yma. Yn eu plith ceir madfall y twyni swil a'r llyffant y twyni, y ddau wedi'u hailgyflwyno'n llwyddiannus yn ddiweddar. Yn yr haf mae'r forwennol fach yn nythu ar y marian. Dyma nythfa fwyaf Cymru.

Gronant Dunes, at Prestatyn to the north of the Vale are equally special, a dune-fringed sand and shingle coastline with wide, open views out to sea. In summer the beach is beautiful, colourful wildflowers cover the dunes, which are alive with the buzz of insects and birdsong. In winter the coast is much quieter, but still dramatic; the sea is wild, and seabirds gather in their thousands to over winter on the Dee Estuary.

Gronant Dunes are a Local Nature Reserve and are also designated as a Site of Special Scientific Interest in recognition of the rich variety of plants and animals that live there. These including rarities such as the colourful but elusive sand lizard and the natterjack toad that have both been successfully re-introduced. During the summer little terns nest on the shingle. The colony is the largest in Wales.

Trefi a Phentrefi

Mae gan drefi hanesyddol Dinbych a Rhuthun lawer i gynnig i'r ymwelydd. Ceir yma gyfoeth o adeiladau rhestredig a dinas fechan Llanelwy gyda'i chadeirlan hardd a syml. Yn hanesyddol, mae dwy ran i dref brysur Dinbych, y dref ganoloesol ar ben y bryn a'r dref iau yn y rhan isaf sydd ag adeiladau Sioraidd hardd. Yn Rhuthun, mae marchnad anifeiliaid fywiog a'r dref yn lle gwych i weld hen adeiladau a siopau diddorol safonol. Mae Llanelwy'n enwog am gerddoriaeth fyw a cheir Gŵyl Gerddorol flynyddol yn y Gadeirlan a jazz byw ym Mharc Ro wrth yr afon. Yn ychwanegol at y troeon sydd yn y llyfryn hwn, mae gan bob tref ei Llwybr y Dref. Mae'r taflenni ar gael o lyfrgelloedd ac mae paneli yn y prif feysydd parcio.

Oherwydd ffyniant amaethyddiaeth, datblygodd pentrefi tlws a chododd yr uchelwyr cefnog blasau. Mae'r eglwysi yn y pentrefi'n arbennig o drawiadol, a chorff dwbl mewn llawer un sydd â cherfiadau coed hynod, yn rhodd oddi wrth y tirfeddianwyr lleol. Mae Llanrhaeadr yn un o'r pentrefi mwyaf hynod, yn glwstwr o gwmpas eglwys ganoloesol Sant Dyfnog gyda'i ffynnon sanctaidd. O amgylch yr eglwys ceir hen adeiladau cerrig, hen efail ac elusendai gwyngalchog o gwmpas y fynwent, a'r dafarn gyferbyn sydd o'r 16eg ganrif.

Mae dewis helaeth o gaffis, tafarndai, llety a bwytai yn y trefi a'r pentrefi; bob un yn lleoliad da am benwythnos o ddarganfod y Dyffryn a Bryniau Clwyd.

www.visitdenbigh.co.uk
www.rhuthun-cymru.co.uk
www.ruthin.com
www.stasaph.co.uk

Dyffryn Clwyd

Towns and villages



The historic towns of Denbigh and Ruthin, with their wealth of listed buildings, and the small city of St Asaph with it's simple but beautiful cathedral have much to offer visitors. The bustling town of Denbigh is in two parts historically, with the medieval town on the hilltop and the newer town, which boasts many elegant Georgian buildings, below it. The market town of Ruthin still has an active livestock market and is a wonderful place to wander amongst its old buildings and interesting range of high quality shops. St Asaph is renowned for live music, with its annual Music Festival in the cathedral and live jazz and brass bands in Roe Park beside the river. In addition to the walks described in this booklet, each has its own Town Trail. Leaflets are available from libraries and there are panels in the main car parks in each town.

The agricultural prosperity of the Vale led to the development of picturesque villages and numerous fine country houses built by wealthy landed gentry. The village churches are particularly stunning, often double-naved with wonderful wood carving, as they were lavishly endowed by the local gentry. Llanrhaeadr is one of the most special, centred on medieval St Dyfnog's Church, with its adjoining holy well. A delightful cluster of old stone buildings huddle around the church, the old smithy, the whitewashed almshouses edging the churchyard and the 16th century inn opposite.

There is a good choice of cafes, pubs, accommodation and restaurants in the towns and villages and they would be an ideal base for a weekend break, not only for exploring the Vale itself but also the nearby Clwydian Range.

www.visitdenbigh.co.uk
www.ruthin-wales.co.uk
www.ruthin.com
www.stasaph.co.uk